P052 **Parc Pawb**

cofnod gweithredol (nid y cofnodion llawn)
Canolfan Hamdden, Port 07-11-2016 18:00

Angharad ab Iorwerth
Eifiona Lane (cofnodion y cyfarfod)
John Bowers
Nia Jeffries
Selwyn Gruffydd (cyng.)
Alwyn Gruffydd (cyng.)
Alaw Paul (Groundworks)
hmo

1. holiadur

1.1. wedi derbyn 57 ymateb - mwy neu lai yn cytuno a'r bwriad;
  1.1.1. dim llawer o syniadau newydd
  1.1.2. mwy o bwyslais ar y cynllun fel cyrchfan
  1.1.3. dalgylch yn fwy na'r ymateb sydd wedi dod i law (rhan fwyaf o LL49) dylai fod hyd at 30munud o daith (car neu feic), neu fwy yn achlysruol
  1.1.4. angen mwy o bswyslais ar beth sydd yn digwydd yno - gweithgareddau, ayb.
1.2. bydd y dadansoddiad llawn yn yr adroddiad
1.3. copi o'r wybodaeth amrwd (Survey Monkey) wedi'i gyflwyno
1.4. angen mwy o ymateb gan bobl ifanc - sesiwn yn Ysgol Eifionydd/ ysgolion cynradd? [pwyllgor] [groundworks?]
1.5. tystiolaeth yn bwysig i unrhyw gais am nawdd
1.6. efallai llenwi'r holiadur ar bapur yn haws i'w drefnu?
1.7. yr holiadur dal yn agored

2. Cyngor Tref Porthmadog

2.1. angen cadarnhau cefnogaeth ffurfiol ar gyfer y cais [pwyllgor]
  2.1.1. awgrymu drafftio llythyr i'w ddiwygio a'i gytuno
2.2. angen gwybodaeth benodol ynglyn a'r safle; wedi gofyn ers y cychwyn ond heb dderbyn y wybodaeth eto [pwyllgor] [hmo]
  2.2.1. ffiniau pendant
  2.2.2. hawliau mynediad (drwyr giat; ar hyd y lôn)
  2.2.3. cyfamodau - cyfyngiad cyfreithiol ar ddatblygu'r safle
  2.2.4. 'easements' National Grid, Scottish Power, ac eraill?

3. ariannol

3.1. angen amcan o gostau cynnal a chadw [hmo]
3.2. angen astudio incwm o grantiau/ gweithgareddau/ rhent - beth yw'r cydbwysedd delfrydol [pwyllgor] [hmo]
3.3. eu cyfuno yn rhyw fath o gynllun busnes - dilyn yr egwyddorion er mwyn dangos fod y cynllun yn gynaladwy [pwyllgor] [hmo]

4. Pwyllgor Rheoli

4.1. angen sefydlu pwyllgor ehangach nawr er mwyn perchnogi'r cynllun [pwyllgor]
- 4.1.1. rhai aelodau yno 'ex officio'
- 4.1.2. eraill yno oherwydd diddordeb penodol (beicio, dringo)
- 4.1.3. efallai grwp is-grwpiau yn gyfrifol am rai agweddau (e.e. digwyddiadau)

4.2. sefydlu grwp cyfeillion Parc Pawb? [pwyllgor]

4.3. angen strategaeth gyfathrebu i gyrraedd cefnogwyr gweithredol [pwyllgor]

5. cyllideb / cais

5.1. angen edrych ar brosiectau eraill tebyg i weld beth yw'r costau ar gyfartaledd (e.e. Aberystwyth) [hmo] [pwyllgor]

5.2. angen ystyried pa fath o gyllideb mae ariannwyr yn fodlon ei gefnogi a beth yw'r cyfuniad gorau o ariannwyr [hmo] [pwyllgor]
- 5.2.1. angen cyfuniad strategol o ariannwyr craidd a chronfeydd bach ar gyfer gweithgareddau penodol

5.3. ydi cyllideb o £500- £700k? yn swnio'n ymarferol? (digon mawr i wneud gwahaniaeth, digon isel i gael cefnogaeth)

5.4. angen sgwrs/ cyfarfod efo Alys (yn Botwnnog?) i drafod ariannu'r cynllun - pa grantiau sydd ar gael [hmo]

5.5. Play Wales yn le da i edrych am grantiau [pwyllgor] [hmo]

5.6. angen tystiolaeth mor fanwl a chadarn ac y gallwn ni, i wneud cais - dyw dyheadau ag ewyllys dda ddim yn ddigon

5.7. Groundworks yn awgrymu Play Pods (unedau symudol wedi eu hailwampio), rhai yn cynnwys toiled (y Fynedfa yn y cynllun yn cynnwys toiled hefyd)

5.8. awgrym i ystyried mwy eto o le i storio (mwy o grwpiau a mwy o amyrwiaeth)

6. ariannwyr (cynllun presennol)

6.1. angen cadarnhau beth sydd wedi ei gynnwys yn y grant a dderbyniwyd (ar wahan i ffi'r tîm ymgynghorol) - effeithio ar faint o arian/amser sydd ar ôl 'yn y pot' i gwblhau'r gwaith [pwyllgor]

6.2. gyda'r dyddiad cau yn dod, ydi'r ariannwyr yn hapus i dalu ar anfoneb yn unig? os na, beth yw'r hyn y mae nhw'n ddisgwyl ar y dyddiad cau? (ddim mewn sefyllfa i hepgor unrhyw gyfran o'r gwasanaeth/grant) [pwyllgor]

6.3. dim taliad wedi'i dderbyn eto

7. model a delweddau

7.1. delwedd(au) erbyn prynhawn 08-11-2016 i fynd i'r Cambrian News [hmo]

7.2. mwy o ddelweddau i fynd ar safle we [hmo]

7.3. safle we newydd ar gyfer y wybodaeth - wordpress? facebook? [pwyllgor]

8. National Grid?

8.1. angen gwybod yn union beth yw dyletswyddau a oblygiadau National Grid / Cyngor Tref ar y safle (gw. 2.2) [hmo] [pwyllgor]

8.2. angen dod i gytundeb gyda NG ynglyn a lle gellir datblygu yn saff, lle mae amheuaeth - o leia mewn egwyddor - ar gyfer y cais [hmo] [pwyllgor]

8.3. angen holi am effaith foltedd uchel (400kv) o dan y wyneb mewn maes chwarae [hmo] [pwyllgor]
- 8.3.1. ar y plant / bobl ifanc

8.3.2. ar yr henoed
8.3.3. ar offer trydannol (yn arbennig, pacemakers ayb.)
8.3.4. unhryw risg arall? a pha gamau i'w lleihau

9. camau nesaf

9.1. paratoi manylion argyfer amcangyfri ariannol
9.2. parhau gyda'r adroddiad (tua 30% wedi'i gwblhau)
9.3. parhau gyda'r manylion (tua 80% wedi'i ei gwneud)
9.4. parhau gyda'r cais cynllunio (tua 60% wedi ei wneud) - trafod cyn ei roi i mewn
9.5. paratoi cais ariannu - Loteri Mawr? [pwyllgor]

10. cyfarfod nesa

10.1. nos Lun, Rhagfyr 19eg, 18:00 Canolfan Hamdden Porthmadog

Os oes unrhyw fwlch, wall neu gamddealltwriaeth yn y cofnod, a wnewch chi adael i mi wybod er mwyn i mi ei gywiro.

Diolch.

hmo 161108